

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Egwyddorion y Ddeddf

- **Pobl** - rhoi'r unigolyn yn y canol drwy roi llais cryfach iddo a mwy o reolaeth dros y gwasanaethau y mae'n eu derbyn
- **Llesiant** - cefnogi pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain, gan adeiladu ar amgylchiadau, gallu, rhwydweithiau a chymunedau person
- **Ymyrraeth gynnar** - mwy o wasanaethau ataliol, yn cefnogi pobl cyn i'w hanghenion droi'n argyfyngus
- **Cydweithio** - mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng yr holl bartion dan sylw

Cymhwysedd

- Caiff y penderfyniad am gymhwystra ei seilio ar drafodaeth â'r unigolyn am yr hyn sydd o bwys iddyn nhw:
 - Beth maen nhw am ei gyflawni?
 - Beth yw'r risgiau?
 - Oes angen iddynt gael gofal a chymorth a reolir i gyflawni'r canlyniadau y maen nhw am eu gweld?
- Mae'r dull hwn yn edrych ar amgylchiadau person, a'r rhwystrau rhag llesiant

Cynllunio gofal

- Bydd amgylchiadau, galluoedd, rhwydweithiau a chymunedau person yn cael eu hystyried wrth benderfynu sut i sicrhau llesiant
- Caiff pobl eu cefnogi i sicrhau'r canlyniadau y maen nhw am eu gweld, yn hytrach na dim ond eu hasesu ar gyfer gwasanaethau
- Defnyddir barn broffesiynol i gynllunio, ac mae llai o ddibyniaeth ar ddulliau haearnaidd ffurfiol

Asesiad

- Bydd gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gael i bawb
- Bydd ymarferwyr yn gweithio mewn partneriaeth â phobl a'u gofalmwr, gan ddefnyddio'u barn broffesiynol i ddeall eu cryfderau. Gyda'i gilydd, byddant yn adeiladu ar y cryfderau hyn i ddiwallu anghenion y person
- Bydd y cydweithio agos hwn yn parhau gydag unigolion a'u teuluoedd i ddod o hyd i ddulliau cymorth, a ffyrdd o ymateb i wahanol anghenion
- Bydd gwaith adolygu parhaus yn cael ei wneud i ddarganfod i ba raddau y mae'r canlyniadau'n cael eu cyflawni

Cydweithio

- Bydd ymarferwyr yn gweithio gydag ystod o gyrff ac unigolion i nodi atebion ac ymatebion i angen
- Byddant yn camu i mewn yn gynt ym mywydau pobl sydd angen cymorth
- Mae canolbwyntio ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed yn parhau i fod yn hanfodol

Eiriolaeth

- Bydd ymarferwyr yn helpu pobl i gael gafael ar eiriolaeth, pan fydd angen hynny, er mwyn gallu penderfynu ar eu canlyniadau llesiant a mynegi eu dymuniadau a'u teimladau

